

## Cyfraith, Carchar a Chastell: Hynt a Helynt Llawysgrif Gyfreithiol

*Sara Elin Roberts*

Mae'r testunau Cyfraith Hywel yn destunau pwysig o'r oesoedd canol, yn dystiolaeth am Gymru, gweinyddu'r gymdeithas, yr hyn a oedd yn bwysig i bobl yn y cyfnod a'r hyn a oedd yn anaddas; mae cyfraith bob amser yn rhoi mwy o dystiolaeth am yr ochr negyddol, y pethau sydd angen eu rheoli, nag am fywyd bob dydd sydd yn cael ei gynnal heb unrhyw broblemau. Nid oes angen mynd i fanylion am bwysigrwydd Cyfraith Hywel fel tystiolaeth hanesyddol ar gyfer Cymru'r oesoedd canol. Ond mae un llawysgrif ddiweddar o Gyfraith Hywel – y llawysgrif ddiweddaraf, fel y mae'n digwydd – sydd yn mynd â'r dystiolaeth yn ehangach. Ceir nodyn diddorol yn y llawysgrif hon, nodyn sydd yn cynnig stori dditectif ddifyr i ni, ac mae'r stori hon sydd yn gysylltiedig â'r llawysgrif Gymraeg o Gyfraith Hywel yn rhoi tystiolaeth am fwy na Chymru – gall fod yn allwedd i ddeall symudiadau pobl yn yr oesoedd canol, trosedd a chosb, brwydro, a hanes un castell arbennig yn Lloegr. Felly, mae hynt a helynt un llawysgrif benodol o Gyfraith Hywel yn rhoi tystiolaeth i ni am gyfraith Cymru yn yr oesoedd canol, fel y byddem yn ei ddisgwyl, ond hefyd am gyfnod un Cymro mewn carchar, a hynny mewn castell mawr yn Lloegr. Bwriad y papur hwn yw trafod yr elfennau hyn yn eu tro – gan ddechrau gyda chyflwyniad byr i Gyfraith Hywel, yn canolbwyntio ar y llawysgrif benodol hon, cyn troi at y nodyn a'r stori ehangach ac arwyddocâd y nodyn hwn.

### *Cyfraith Hywel*

Trwy gydol yr oesoedd canol, roedd gan Gymru system gyfreithiol arbennig, system a oedd yn wahanol iawn i'r gyfraith gyffredin yn Lloegr, ac yn wahanol hefyd i gyfraith Canon yr eglwys; roedd y system gyfreithiol hon hefyd yn annibynnol ar y systemau eraill yma ac wedi datblygu ar wahân. Adnabyddid y system gyfreithiol hon fel Cyfraith Hywel. Mae'r enw hwn yn codi cwestiwn yn syth ynghylch cysylltiad Hywel â'r gyfraith yng Nghymru. Roedd Hywel ap Cadell, neu Hywel Dda, yn frenin ar y rhan helaeth o Gymru yn y ddegfed ganrif a bu farw tua 949-950.<sup>1</sup> Yn anffodus, fodd bynnag, ni ellir dweud gydag unrhyw sicrwydd beth oedd cysylltiad Hywel Dda â'r gyfraith. Yn y llawysgrifau hynny sydd yn cynnwys testun cyflawn o'r gyfraith, ceir rhagamdrodd neu raglith yn dweud hanes Hywel yn cynnull dynion dysgedig – eglwysig a lleyg – at ei gilydd yn yr Hendy Gwyn ar Daf, lle yr aethant ati i drafod y cyfreithiau a gosod trefn

1 Dafydd Jenkins, 'The Significance of the Law of Hywel', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1977), 54–76 (p. 63).

newydd ar faterion cyfreithiol.<sup>2</sup> Yn ddiddorol, mae'r rhaglithiau yn ei gwneud yn hollol glir nad cyfansoddi cyfraith o'r newydd oedd y gwŷr hyn ond addasu a dethol yr hen gyfreithiau i osod trefn arnynt. Yn anffodus, nid oes unrhyw ffynhonnell arall ar gyfer y stori hon, ac mae'n annhebygol i gyfarfod o'r fath ddigwydd – yr eglurhad am y stori yn y rhaglith yw ei bod yn ymgais i roi statws frenhinol ac eglwysig i'r cyfreithiau, yn arbennig gan fod Cyfraith Hywel yn aml yn destun ymosodiadau gan ddiwygwyr a chlerigwyr Normanaid.<sup>3</sup>

Ond dylid ystyried pam y dewiswyd Hywel Dda fel 'awdur' y cyfreithiau yn y modd yma. O ran dewis brenin o gyfnod cynnar, er bod llw o fân frenhinoedd a llywodraethwyr yng Nghymru yn y cyfnod, roedd Hywel ap Cadell yn ddewis da iawn gan iddo gael teyrnasiad heddychlon wedi'r blynyddoedd cynnar, a chan iddo hefyd ddod yn frenin dros y rhan fwyaf o Gymru. Gellid dadlau bod yr amgylchiadau yn ffafriol ar gyfer gweithgaredd cyfreithiol yn ystod ei deyrnasiad, yn fwy felly efallai na chyd brenin oedd yn dioddef ymosodiadau ar ei deyrnas, neu a oedd yn brwydro i'w ymsefydlu ei hun. Felly, efallai i Hywel gyfrannu at ddatblygu agwedd o weithgaredd cyfreithiol yng Nghymru, neu efallai iddo gyhoeddi siarter neu ymddiddori mewn materion cyfreithiol, a hynny heb i neb arall yng Nghymru fod yn gwneud hynny. Tybed a ymgymerodd â materion cyfreithiol dan ddylanwad y brenin Athelstan yn Lloegr, ac yntau â chysylltiadau â'r brenin hwnnw?<sup>4</sup> Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth hanesyddol cadarn i gefnogi – nac ychwaith i ddisodli – swyddogaeth Hywel yn y gwaith o greu'r cyfreithiau. Yr hyn y gellir ei ddweud yn bendant yw nad oes unrhyw lawysgrif cyfreithiol sydd mewn bodolaeth heddiw y gellir ei dyddio yn ôl i gyfnod Hywel Dda ei hun, ac nad oes unrhyw ddarn o'r cyfreithiau sydd ar gael i ni y gellir eu cysylltu heb os â Hywel Dda. Fodd bynnag, barn yr Athro Dafydd Jenkins oedd y dylid dweud nad oes mwg heb dân, ac efallai i Hywel ap Cadell ymwneud â chyfraith mewn rhyw ffordd ond na ellid dweud yn bendant beth oedd hyn.<sup>5</sup> Yn sicr, cafodd y llysenw Da, ac nid oes unrhyw ffordd o egluro hynny ychwaith – nid oes tystiolaeth yn ei gysylltu, er enghraifft, â gweithgaredd eglwysig, rhywbeth a fyddai'n fwy tebygol o ennyn y llysenw Da – ac mae hefyd olion hynafol iawn yn y testunau cyfraith.<sup>6</sup>

Efallai y dylid ystyried, fel tystiolaeth ychwanegol dros hynafiaeth y cyfreithiau, y darn cyfreithiol cynharaf yn y Gymraeg – y *Surexit Memorandum*, yn llyfr Sant Chad, Caerlwythgoed, sydd hefyd yn cynrychioli'r darn rhyddiaith cyntaf yn y Gymraeg.<sup>7</sup> Mae'r darn yn dyddio o'r ddegfed ganrif, sydd yn awgrymu bod gweithgaredd cyfreithiol yn cael ei gynnal yng Nghymru, neu o leiaf mewn un rhan o'r wlad, a hynny yn y Gymraeg; efallai mai dim ond un darn sydd wedi goroesi

2 *The Law of Hywel Dda: Law Texts from Medieval Wales*, gol. Dafydd Jenkins (Llandysul: Gomer, 1986), p. 1; D. Jenkins, *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul: Gomer, 1976), pp. 1–4.

3 Jenkins, *Law of Hywel Dda*, p. xiii.

4 Jenkins, *Cyfraith Hywel*, pp. 1–4.

5 Ibid.

6 Ibid., p. 4.

7 D. Jenkins ac M. E. Owen, 'The Welsh Marginalia in the Lichfield Gospels Part I', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 5 (1983), 37–66; D. Jenkins ac M. E. Owen, 'The Welsh Marginalia in the Lichfield Gospels Part II: The "Surexit" Memorandum', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 7 (1984), 91–120.

yw'r *Surexit*, a bod llawer mwy o weithgaredd cyfreithiol yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg yn y cyfnod ond nad oes gennym dystiolaeth ohono. Beth bynnag, mae'r ffaith ei fod yn ddarn cyfreithiol cynnar, mewn hen Gymraeg, yn dangos bod y Gymraeg yn iaith a oedd yn cael ei hystyried yn addas ar gyfer cynnal gweithgaredd cyfreithiol, sydd yn rhywbeth o blaid gweld y testunau sydd yn y llawysgrifau fel rhan o draddodiad llawer hŷn, yn cynrychioli un cam mewn proses ehangach a oedd, efallai, yn mynd yn ôl ymhellach na chyfnod y llawysgrifau presennol.

Ceir tua deugain o lawysgrifau yn cynnwys testun o gyfraith Hywel.<sup>8</sup> Mae'r mwyafrif ohonynt mewn Cymraeg canol, ond ceir rhai testunau mewn Lladin hefyd. Mae'r llawysgrifau yn dyddio o ganol y drydedd ganrif ar ddeg – tua 1250, ond nid oes unrhyw lawysgrifau Cymraeg ar unrhyw bwnc yn dyddio cyn hynny – hyd at y llawysgrif gyfraith ddiweddaraf, sydd yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg.<sup>9</sup> Wedi cyfnod creu'r llawysgrifau, cafwyd y golygiad cyntaf gan William Maurice o Lansilin, a luniodd ei Ddeddfgrawn rhwng 1660-1663.<sup>10</sup> Ceir y testun printiedig cyntaf yn 1730, gan William Wootton a Moses Williams.<sup>11</sup>

Ond y gwaith cynnar pwysicaf ar y cyfreithiau, a gwaith sydd yn dal i gael ei ddefnyddio gan arbenigwyr heddiw, oedd cyfrolau swmpus Aneurin Owen, sef *Ancient Laws and Institutes of Wales*.<sup>12</sup> Roedd Aneurin Owen yn fab i William Owen Pughe, a cafodd ei gyflogi gan y Records Commission i wneud astudiaeth lawn o'r llawysgrifau cyfraith; aeth ati i fenthyca neu weld y llawysgrifau oedd yn wybyddus iddo, a cheisio gosod trefn ar y deunydd. Mewn ymgais i wneud y gwaith o ddelio â'r llawysgrifau yn haws (gan eu bod oll bron mewn dwylo preifat), rhoddodd sigla, sef llythyren o'r wyddor, ar gyfer pob llawysgrif ac mae'r llawysgrifau i gyd yn dal i gael eu hadnabod yn ôl y sigla a bennodd Aneurin Owen arnynt.<sup>13</sup> Hefyd, dosbarthodd y testunau yn grwpiau – tri grŵp Cymraeg, a'r grŵp Lladin. Rhoddodd enwau ar y grwpiau, neu'r dulliau fel y maent yn cael eu galw, yn ôl eu lleoliad daearyddol, ond erbyn hyn nid yw'r enwau a roddodd Aneurin Owen ar y dulliau yn cael eu derbyn fel enwau cywir ac mae gan y grwpiau Cymraeg enwau cyfreithwyr pwysig a enwir yn rhaglith llawysgrifau y grŵp hwnnw.<sup>14</sup>

Mae pob llawysgrif sydd yn perthyn i un o'r dulliau (ac mae yna rai llawysgrifau nad oes modd eu gosod mewn unrhyw ddull) yn unigryw, ond hefyd yn dangos

8 Jenkins, *Law of Hywel Dda*, p. xxi.

9 Gw. D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), pp. 57–64.

10 D. Jenkins, 'Deddfgrawn William Maurice', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 2 (1941), 33–36.

11 W. Wootton a M. Williams, *Cyfreithjeu Hywel Dda Ac Ereill Seu Leges Wallicae Ecclesiasticae & Civiles Hoeli Boni Et Alconium Wallicae Principium* (London: G. Bowyer, 1730).

12 A. Owen, gol., *Ancient Laws and Institutes of Wales*, 2 vols (London, 1841).

13 *Ibid.*, I, pp. xxv–xxxvi. Roedd gan Owen fwy o lawysgrifau na llythrennau yn yr wyddor, ac felly defnyddiodd llythrennau Groegaidd ac Eingl-Sacsonaidd ar gyfer rhai o'r llawysgrifau; erbyn hyn darganfuwyd rhai llawysgrifau nad oeddent ar gael i Aneurin Owen, ac felly mae gan y rhai hynny sigla newydd wedi eu pennu gan aelodau Seminar Cyfraith Hywel.

14 Yn wreiddiol, galwodd Aneurin Owen y grwpiau Cymraeg yn Venedotian [(Dull Gwynedd), Gwentian (Dull Gwent), a Dimetian (Dull Dyfed) ond erbyn hyn Iorwerth yw'r Venedotian Code gynt, Cyfnerth yw Gwentian, a Blegwryd yw'r Dimetian Code, yn dilyn awgrymiadau A. W. Wade-Evans, *Welsh Medieval Law* (Oxford: Clarendon Press, 1909), pp. vii–x.

tebygrwydd o ran math a threfniant gyda'r llawysgrifau eraill yn yr un dull. Er mwyn edrych yn fwy fanwl ar y llawysgrif sydd yn bwnc i'r papur hwn, rhaid trafod yn gyntaf y dulliau Cymraeg yn fyr, gan fod angen y cefndir hwn i osod y llawysgrif yn ei chyd-destun, ond mae llawer o weithiau wedi eu cyhoeddi ar y pwnc hwn felly trafodaeth gyd-destunol yn unig a gynigir yma.

Mae dull Cyfnerth wedi ei enwi ar ôl Cyfnerth ap Morgeneu, ac mae saith llawysgrif yn perthyn i'r dull hwn.<sup>15</sup> Cysylltir y dull hwn â de Cymru, neu efallai Maelienydd, teyrnas ym Mhowys, tua'r de, yn ffinio â Lloegr. Yn aml, dywedir mai'r testunau Cyfnerth yw'r testunau mwyaf hynafol o ran cynnwys. Mae angen gwahaniaethu, fodd bynnag, rhwng testun, a llawysgrif. Y llawysgrif yw'r llyfr, yn eitem penodol; y testun yw'r deunydd ysgrifenedig sydd o fewn y llawysgrif, ac fe all fod yn gynharach na dyddiad y llawysgrif. Fel arfer, mae'n haws dyddio'r llawysgrif nag ydyw i ddyddio'r testunau.

Ceir wyth llawysgrif yn null Iorwerth, wedi ei enwi ar ôl Iorwerth ap Madog, sef gŵr o hil Cilmin Droetu yng Ngwynedd, ac un sydd yn cael ei enwi yn awdur rhan o'r testun.<sup>16</sup> Mae'n debyg bod y gyfraith yn y llawysgrifau dull Iorwerth yn adlewyrchu'r gyfraith yng Ngwynedd yn ystod teyrnasiad y ddau Lywelyn yn y drydedd ganrif ar ddeg, yn arbennig Llywelyn ap Iorwerth, ac mae'r testunau yn ffurfio grŵp tynn. Y llawysgrifau Iorwerth yw'r llawysgrifau cyfreithiol mwyaf hynafol, ac mae nifer ohonynt yn bwysig gan eu bod yn cynrychioli rhai o'r llawysgrifau rhyddiaith Cymraeg cynharaf.

Dull Blegywryd yw'r dull mwyaf, gyda thair ar ddeg o lawysgrifau, unwaith eto yn agos o ran cynnwys a threfn y testun, ond yn ymrannu yn ddau grŵp pellach.<sup>17</sup> Mae'r testunau Blegywryd yn dod o dde Cymru, ac mae nifer o'r llawysgrifau yn dangos gwaith golygu, a rhai ohonynt yn cynnwys cynffon o ddeunydd ychwanegol, wedi ei atodi i'r prif destun Blegywryd. Mae peth o'r deunydd ychwanegol yma yn dod o ddulliau eraill, Iorwerth yn aml, ond mae'n bosib bod peth ohono yn ddeunydd cynnar, a gall hefyd gynnwys deunydd ar gyfer addysgu cyfreithwyr, a deunydd ymarferol ar gyfer gwaith y llysoedd, yn ogystal â deunydd diweddarach yn dangos datblygiad y gyfraith.

Mae'r testunau Lladin yn rhannu yn bum grŵp; mae'n debyg eu bod yn gyfieithiad i'r Lladin o destun Cymraeg yn wreiddiol, ond cyfieithwyd ffurf ar un o'r testunau Lladin yn ôl i'r Gymraeg i greu dull Blegywryd.<sup>18</sup> Mae'r llawysgrifau yn gymysgedd o Ladin a Chymraeg canol.

Cyflwynwyd y gyfraith yn y llawysgrifau mewn testunau a oedd yn amrywio o ran hyd, ac wedi eu trefnu yn ôl eu pwnc, sef y traethigau neu draethodau. Gall trefn y traethodau amrywio yn y llawysgrifau, ac fe all y traethodau fod yn gymysgedd o ddeunydd cynnar ac ychwanegiadau diweddarach.<sup>19</sup> Mae'r testunau cyfraith yn ymgais i gyflwyno cyfraith Cymru i gyd mewn un cyfrol – fel cod sifil modern – ac fe geir adrannau ar bob mathau o bynciau. Mae cyfraith y llys

15 *Llawysgrif Pomffred: An Edition and Study of Peniarth MS 259B*, gol. S. E. Roberts (Leiden: Brill, 2011), pp. 2–3.

16 *Ibid.*

17 *Ibid.*

18 *Ibid.*

19 Jenkins, *Cyfraith Hywel*, pp. 4–5; Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, pp. 3–4.

yn trafod trefn y llys brenhinol a theulu y brenin, gan gynnwys y dynion oedd yn gweithio iddo; mae'n debyg bod yr adran hon yn hen-ffasiwn hyd yn oed erbyn y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>20</sup> Yng nghyfraith y wlad ceir y darnau mwy ymarferol – yr hyn a all gynrychioli cyfraith droseddol, sef tair colofn cyfraith, galanas, lladrad, a thân; cyfraith mechniaeth, yn canolbwyntio ar gytundebau rhwng unigolion gyda'r mach yn berson i sicrhau bod y contract yn cael ei chynnal.<sup>21</sup> Ceir nifer o adrannau yn trafod dyletswydd unigolion mewn sefyllfaoedd amaethyddol ar y cyd, gan gynnwys llwgr ŷd, difrod i anifeiliaid, a chyfar (aredig ar y cyd).<sup>22</sup> Mae cyfraith y tir yn adran hir a chymhleth ar y dulliau o ddal tir, gan gynnwys darn yn manylu ar sut i gynnal achos llys am dir. Trafodwyd cyfraith y gwagedd yn helaeth gan ysgolheigion, ond mae'n adran ddiddorol yn trafod statws merched, priodas, gwahanu a phlant.<sup>23</sup>

Er bod elfennau yn y testunau cyfraith y gellid eu galw'n gyfraith droseddol, byddai hynny yn golygu defnyddio cysyniad modern i drafod system ganoloesol. Nid cyfraith yn cael ei chynnal gan wladwriaeth oedd hon, yn trafod trosedd a chosb, ond system yn seiliedig ar iawndal, a'r pwyslais ar unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad. Roedd gan bawb ei statws, ac roedd gwerth ar ei fywyd, sef galanas; telid galanas i deulu'r dyn marw pan oedd rhywun wedi ei ladd. Yn ogystal â hyn, roedd taliad am bob gweithred oedd yn achosi niwed neu goll – felly gwerth ar anafu anifail, gwerth ar anafu corff person, a gwerth ar eiddo. Ond roedd hefyd taliad ychwanegol, sef sarhaed, a oedd yn cael ei dalu fel iawndal am unrhyw weithred fwriadol. Felly, os oedd dyn wedi torri bys dyn arall i fwrdd, byddai'n rhaid iddo dalu gwerth yr anaf i'r dyn, yn ogystal â'i sarhaed os oedd hon yn weithred fwriadol. Os oedd hi'n weithred ddamweiniol, yna dim ond gwerth yr anaf fyddai angen ei dalu.<sup>24</sup>

### *Llawysgrif Peniarth 259B – y llawysgrif*

Wedi edrych yn fras ar y cefndir cyfreithiol yn gyffredinol, trown yn awr i edrych ar un llawysgrif ddiddorol o Gyfraith Hywel, sef Peniarth 259B, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<sup>25</sup> Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar hanes y llawysgrif yn bennaf yn hytrach na'r cynnwys, er bod llawer y gellid ei ddweud am gynnwys

- 20 Gw. *The Welsh King and his Court*, gol. T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen, a P. Russell (Cardiff: University of Wales Press, 2000).
- 21 Gw. *Tair Colofn Cyfraith: The Three Columns of Law in Medieval Wales*, gol. T. M. Charles-Edwards a P. Russell (Bangor: Welsh Legal History Society, 2005); *Lawyers and Laymen: Studies in the History of Law Presented to Professor Dafydd Jenkins on his Seventy-fifth Birthday, St David's Day 1986*, gol. T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen, a D. B. Walters (Cardiff: University of Wales Press, 1986).
- 22 Gw. Dafydd Jenkins, *Agricultural Co-operation in Welsh Medieval Law* (Cardiff: Amgueddfa Werin Cymru, 1982).
- 23 Gw. *The Welsh Law of Women: Studies Presented to Daniel A. Binchy on his Eightieth Birthday, 3 June 1980*, gol. D. Jenkins ac M. E. Owen (Cardiff: University of Wales Press, 1980).
- 24 Jenkins, *Law of Hywel Dda*, pp. xxx–xxx.
- 25 Roberts, *Llawysgrif Pomffred*. Ceir golygiad llawn o'r testun yma, a manylion am natur y llawysgrif yn y rhagymadrodd.

y llawysgrif hefyd. Fodd bynnag, mae gan y llawysgrif hon hanes arbennig o ddi-ddorol, sydd yn dweud llawer am wleidyddiaeth, a symudiadau pobl yng Nghymru yn yr oesoedd canol, ymysg pethau eraill.

Llawysgrif o gyfraith Hywel yw Peniarth 259B. Galwyd y llawysgrif hon yn *Z* gan Aneurin Owen, ac hon yw'r llawysgrif ddiweddaraf o gyfraith Hywel yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, wedi ei hysgrifennu ar bapur yn hytrach nag ar femrwn.<sup>26</sup> Gellir dyddio'r llawysgrif i'r unfed ganrif ar bymtheg ar sail y llawysgrifen – mae ôl dwylo dau ddyn ar y llawysgrif, sef llawysgrifen Richard Longford, a'i *amanuensis*.<sup>27</sup> Mae yna hefyd farc dŵr ar rai o'r tudalennau, ac mae modd dyddio'r rheiny i'r un cyfnod â Longford.<sup>28</sup> Llawysgrif dull Cyfnerth ydyw, gyda chynffon hir o ddeunydd ychwanegol – mae hyn yn beth anarferol i llawysgrif dull Cyfnerth, a hon yw'r unig un o'r fath.<sup>29</sup> Mae cael cynffon o ddeunydd amrywiol ychwanegol yn fwy arferol yn achos llawysgrifau diweddarach dull Blegywryd. O bosib, fe all fod hyn yn awgrymu bod y testun yn *Z* yn fwy diweddar nag eiddo'r llawysgrifau Cyfnerth eraill, ond byddwn yn dychwelyd at y pwynt yma.

Felly, mae'r llawysgrif bresennol yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, ond yn gopi o destun hŷn na hynny, sef cysail y llawysgrif. Mae'r llawysgrif bresennol yn llaw Richard Longford neu 'Yr Hen Risiart Langffordd'.<sup>30</sup> Bu farw yn 1586, felly mae'r llawysgrif yn ei law yn dyddio o tua canol yr unfed ganrif ar bymtheg, wedi'r 1540au fwyaf tebyg. Roedd Richard Longford yn fonheddwr, yn byw yng ngogledd ddwyrain Cymru – Trefalun, ger Gresffordd – ac yn Liwtenant Brwmffild a Iâl dan William Herbert, Iarll Penfro.<sup>31</sup> Saeson oedd y teulu yn wreiddiol, yn dod o Swydd Gaerlŷr; daethant i Ruthun gydag un o deulu Grey, arglwyddi Rhuthun. Roedd gan Richard Longford ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac roedd yn gopiwr llawysgrifau. Yn 1573, llwyddodd i gael copi o Lyfr Gwyn Rhydderch, ac fe gopiodd y llawysgrif; collwyd y llawysgrif yn ddiweddarach felly copiau Longford yw'r unig rai sydd ar gael i ni heddiw.<sup>32</sup> Mae'n debyg i Longford gopïo *Z* cyn iddo gael Llyfr Gwyn Rhydderch. Roedd yn gweithio gydag *amanuensis*, ond ni wyddom pwy oedd y gŵr hwnnw.

Gŵr arall a welodd gopi o *Z* – o'r testun gwreiddiol, sef yr un copi ag yr oedd Richard Longford yn ei gopïo – oedd yr ysgolhaig William Salesbury. Mae'n debyg i William Salesbury gael ei eni tua 1520, a bu farw tua 1584, dwy flynedd o flaen Longford. Fel Longford, roedd Salesbury yn Brotestant pybyr, a bu'n rhaid iddo fynd i guddio pan ddaeth Mary I ar yr orsedd ym 1553.<sup>33</sup> Tair blynedd

26 Ibid., p. 11.

27 Ibid.

28 Ibid.

29 Mae gan Lsgr. Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Peniarth 37, ddamweiniâu wedi eu hatodi i'r prif destun ond mae cynffon *Z* llawer hwy, ac yn amrywiol o ran natur.

30 D. Huws, 'Yr Hen Risiart Langffordd', yn *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. M. E. Owen a B. F. Roberts (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996), pp. 302–25.

31 Evan David Jones, 'Langford (Teulu)', yn *Y Bywgraffiadur Ar-lein* <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c-LANG-FOR-1403.html>> [accessed 5 December 2012]

32 Huws, 'Yr Hen Risiart Langffordd', p. 302.

33 William Alun Mathias a Robert Thomas Jenkins, 'Salesbury, William (1520?–1584?)', yn *Y Bywgraffiadur Ar-lein* <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c-SALE-WIL-1520.html>> [accessed 5 December 2012]

ynghynt, roedd Salesbury wedi cyhoeddi *Ban wedy i dynny*, darn o waith yn trafod offeiriaid priod, ac yn y pamffled roedd yn defnyddio testunau cyfraith Hywel fel tystiolaeth.<sup>34</sup> Gan iddo ddyfynnu darnau, mae modd olrhain y llawysgrifau yr oedd yn eu defnyddio, ac mae modd dweud yn sicr mai *Z* oedd un o'r llawysgrifau yr oedd yn eu defnyddio, felly gwyddom ei fod wedi gweld y llawysgrif honno.<sup>35</sup> Mae'n debyg iawn iddo weld y llawysgrif cyn i Richard Longford ei chael – yn ei gopi, mae Longford yn nodi geiriau sydd wedi eu hysgrifennu ar ymylon y tudalennau. Mae'n ymddangos bod y rhain yn y llawysgrif yr oedd Longford yn ei chopio; ond mae pwrpas y geiriau yn llai eglur. Mae'n bosib eu bod yn allweddeiriau o'r testun, ar gyfer ysgrifennu geirfa, ac roedd hyn yn rhywbeth yr oedd William Salesbury yn ei wneud; mae geiriau o'r fath yn ymddangos ar ymylon tudalennau nifer o'r llawysgrifau y mae'n wybyddus iddo eu defnyddio.<sup>36</sup> Pwy ddefnyddiodd y llawysgrif yn gyntaf – Salesbury ynteu Longford? Roedd y ddau ŵr tua'r un oedran. Ond os yw'r theori mai Salesbury ysgrifennodd yr allweddeiriau ar ymylon y tudalennau yn gywir, yna Salesbury oedd y cyntaf; roedd Salesbury wedi mynd i guddio erbyn 1553, wedi iddo gyhoeddi *Ban wedy i dynny*. Byddai hynny yn golygu bod Longford yn defnyddio'r llawysgrif wreiddiol yn yr 1550au neu'n ddiweddarach.

Cwestiwn sydd yn fwy anodd ei ateb yw ble yr oedd Salesbury a Longford yn cael eu llawysgrifau. Roedd rhai ohonynt yn sicr yn dod o'r mynachlogydd, a oedd wedi cael eu diddymu erbyn 1541; yn y llyfrgelloedd mynachaid oedd llawysgrifau yn cael eu creu yn wreiddiol, ac roedd gan y mynachlogydd lyfrgelloedd cyn i unigolion ddechrau casglu llawysgrifau ar gyfer y casgliadau mawr preifat. Roedd Longford – a dynion tebyg iddo a oedd yn ymddiddori mewn llawysgrifau a llenyddiaeth – hefyd yn cael llawysgrifau gan gyfeillion a oedd yn gwybod am ei ddi-ddordebau, neu gan berthnasau a oedd yn berchen llawysgrifau. Roedd ambell i ysgolhaig yn berchen rhai llawysgrifau – er enghraifft, roedd William Morgan yn berchen un llawysgrif gyfraith gan ei fod yn astudio hen lawysgrifau gyda'i waith yn cyfieithu'r Beibl. Ychydig wedi'r cyfnod hwn ganwyd Robert Vaughan a ddaeth yn gasglwr llawysgrifau a chreu casgliad anferth Hengwrt; erbyn diwedd oes Longford roedd Thomas Wiliems wedi dechrau ymddiddori mewn llawysgrifau. Roedd yr uchelwyr yn llwyddo i gael at y llawysgrifau hyn a'u defnyddio neu eu casglu, a chan fod cryn symud ar y llawysgrifau, a chyfnewid a benthyca, mae'n amhosibl gwybod o ble y daeth y llawysgrif wreiddiol at Longford, neu at Salesbury.

Mewn ymgais bellach i ateb y cwestiwn hwn, sef sut y cafodd Longford a/neu Salesbury yn cael eu llawysgrifau, dylid edrych ar yr hyn a ddywed y llawysgrif ei hun wrthym am ei tharddiad. Fel sydd yn arferol gyda llawysgrifau cyfraith Hywel – ac yn wir, llawysgrifau Cymraeg canol – nid oes enw ysgrifydd yn y llawysgrif. Gan nad oes gennym y copi gwreiddiol beth bynnag, sef yr un a gopiodd Longford,

34 C. James, '*Ban wedy i dynny*: Medieval Welsh Law and Early Protestant Propaganda', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 27 (1994), 61–86; D. Ifans, *William Salesbury and the Welsh Laws* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreiga Cheltaidd Coleg Prifysgol Cymru, 1980).

35 James, '*Ban wedy i dynny*'.

36 Ifans, *William Salesbury and the Welsh Laws*, p. 3.

mae'n rhaid i ni ddibynnu ar y copi diweddarach ar gyfer yr orgraff – ac mae'n anodd dweud a oedd Longford a'i *amanuensis* yn diweddarar'r orgraff neu yn ei newid mewn rhyw ffordd, er, mae'n ymddangos bod y ddau yn cadw yn weddol agos at yr hyn yr oedden nhw'n ei gopïo – ac nid oes modd cael unrhyw syniad o'r llaw wreiddiol (neu, yn wir, ai un llaw yn unig oedd yn y llawysgrif) felly mae dyddio'r testun gwreiddiol yn anodd. Ond, mae modd edrych yn gyffredinol ar lawysgrifau cyfreithiol a chynnig dyddiad tebygol ar gyfer creu'r copi gwreiddiol. Mae'r llawysgrifau cyfraith cynharaf yn dyddio o ganol y drydedd ganrif ar ddeg, a thestunau Iorwerth yw'r rhai hynny.<sup>37</sup> Dylid nodi nad oes unrhyw lawysgrifau Cymraeg canol o unrhyw fath yn dyddio cyn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae testun *Z* yn destun Cyfnerth, ac mae'r llawysgrifau Cyfnerth eraill oll yn dyddio o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg; mae'n bosib bod *X*, Cotton Cleopatra B.v., ychydig yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>38</sup> Ac mae yna berthynas agos rhwng y testun Cyfnerth yn *X* a hwnnw yn *Z*.<sup>39</sup> Yn ogystal, mae *Z* yn llawysgrif sydd yn cyfuno testun Cyfnerth, tebyg i'r un yn *X*, gyda chynffon hir o ddeunydd ychwanegol. Mae llawer o'r deunydd ychwanegol yma yn ymddangos mewn llawysgrifau eraill, ac mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau hynny yn dyddio o ddechrau'r bymthegfed ganrif ymlaen.<sup>40</sup> Mae llawysgrifau gyda chynffonnau yn tueddu i fod yn ddiweddarach; felly mae'n bosib bod *Z* yn lawysgrif fwy diweddar na'r gweddill o'r llawysgrifau Cyfnerth; yn sicr, mae'r deunydd yn y gynffon yn ddiweddarach. Gan nad oes unrhyw beth yn y copi sydd gennym o *Z* i awgrymu bod hwn yn destun hynod o hynafol, byddai'n ddiogel dweud mai tua canol y bedwaredd ganrif ar ddeg y cafodd y llawysgrif wreiddiol ei chreu, ac mae'n annhebygol o fod llawer cynharach na hynny, ond yn debygol o fod yn ddiweddarach. Mae hynny yn gadael tua dwy ganrif tan i Richard Longford wneud ei gopi.

I edrych hefyd ar sut y cafodd Richard Longford y llawysgrif wreiddiol, rhaid ystyried o ble y daeth y llawysgrif. Gellir dweud bod y testun Cyfnerth yn deillio o dde Cymru neu Bowys o bosib, efallai Maelienydd.<sup>41</sup> Ond nid yw hyn yn golygu bod y llawysgrifau wedi eu llunio neu eu copïo (gan gymryd bod y llawysgrifau hyn yn gopïau o bethau cynharach) yn ne Cymru neu yn wir ym Maelienydd. Cyn ateb y cwestiwn o darddiad llawysgrif wreiddiol *Z*, rhaid yn gyntaf ystyried yn fyr sut yr oedd llawysgrifau yn cael eu creu, cyn ceisio cynnig lleoliad cyntaf ar gyfer llawysgrif *Z*, a thrafod sut y byddai Richard Longford wedi bod yn ei defnyddio rai canrifoedd yn ddiweddarach.

Yn y cyfnod nid oedd y gymdeithas yn gymdeithas lythrennog. Dim ond un grŵp o bobl oedd gyda'r gallu i ysgrifennu ac i ddarllen, a chlerigwyr oedd y dynion hynny fel rheol, neu weithiau yn ddynion a oedd wedi cael hyfforddiant eglwysig o ryw fath. Felly, clerigwyr oedd yn gyfrifol am ysgrifennu a chreu llawysgrifau, ac yn fwy penodol, roedd y llawysgrifau yn cael eu creu mewn mynachlogydd. Fel rheol, roedd angen mynachlog gymharol fawr i fod yn creu llawysgrifau, ac nid oedd bob un o'r urddau mynachaid yn ysgrifennu llawysgrifau; roedd y Sistersiaid

37 Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, p. 58.

38 Ibid., p. 59.

39 Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 7.

40 Ibid., pp. 23–41.

41 Ibid., p. 8.



yn enwog am gynhyrchu llawysgrifau ac mae modd olrhain rhai llawysgrifau Cymraeg canol i fynachlogydd Sistersaidd megis Ystrad Fflur.<sup>42</sup> Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, fodd bynnag, yn raddol fe ddaeth rhai scriptoria llebyg i fodolaeth – ond wedi dweud hyn, mae'r mwyafrif o'r llawysgrifau Cymreig cynharaf, gan gynnwys y llawysgrifau cyfraith, yn debygol o fod wedi eu creu mewn scriptoria mewn mynachlog.<sup>43</sup> Os ydym yn derbyn y dyddiad o ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg ar gyfer copi gwreiddiol Z, yna mae'r posibilïadau yn fwy agored – roedd y mynachlogydd yn dal i gynhyrchu llawysgrifau, ond mae tystiolaeth am rai ysgrifwyr proffesiynol y tu allan i'r mynachlogydd, ac mae ambell i lawysgrif cyfraith yn sicr wedi ei llunio gan ysgrifwr proffesiynol ond llebyg. Ni ellir ateb y cwestiwn mewn gwirionedd heb weld y gwreiddiol, ac mae'r llawysgrif wreiddiol wedi diflannu ers canrifoedd.

Mae modd edrych ar y testun yn y copi o Z, fodd bynnag, a chanfod rhai sylwadau sydd yn awgrymu man cynhyrchu ar gyfer y llawysgrif. Mae nifer o gyfeiriadau yn y testun yn awgrymu mai ym Mhowys y cafodd y llawysgrif ei llunio; er enghraifft, mae ambell i ddarn yn enwi gwahanol ardaloedd ond yn rhoi Powys yn gyntaf (mae hyn yn anarferol yn y llawysgrifau cyfraith).<sup>44</sup> Hefyd, y tu allan i'r testun, mae rhai ffeithiau eraill i leoli'r testun a'r llawysgrif. Mae Z yn lawysgrif sydd yn cynnwys prif destun dull Cyfnerth, a chynffon o ddeunydd ychwanegol; mae peth o'r deunydd ychwanegol yn ymddangos mewn llawysgrifau eraill hefyd. Yn achos y testun Cyfnerth, mae'r fersiwn yn Z yn agos iawn at yr hyn a geir yn llawysgrif X, ac mae'n debyg bod y ddwy lawysgrif yn deillio o ogledd ddwyrain Cymru.<sup>45</sup> Hefyd, mae yna gasgliad o gynghawsedd, sef modelau o sut i bledio achosion llyso, yng nghynffon Z, ac mae'r deunydd yn ymddangos mewn dwy lawysgrif arall, y ddwy ohonynt yn deillio o ogledd ddwyrain Cymru.<sup>46</sup> Felly gellir dweud yn eithaf pendant bod y testun yn Z yn deillio o ogledd ddwyrain Cymru, ac mae hyn yn cynnwys y prif destun Cyfnerth a'r deunydd yn y gynffon. Mae'n anodd penderfynu ar union leoliad, ond roedd mynachlog fawr yn Ninas Basing (Basingwerk), un a oedd yn cynhyrchu llawysgrifau; ac hefyd roedd mynachlogydd Sistersaidd gerllaw yng Nglyn-y-Groes ac yn Ystrad Marchell, felly mae posibilïadau petai'r testun yn deillio o fynachlog.<sup>47</sup> Os nad oedd yn deillio o fynachlog yna amhosib fyddai pennu union leoliad. Fodd bynnag, mae Dyffryn Clwyd yn awgrymu ei hun fel lleoliad posib, gan fod traddodiad llenyddol cryf yno, nifer o fynachlogydd neu abatai, ac hefyd byddai'n cyd-fynd â lleoliad

42 Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, pp. 14–15, 252–53. Dylid nodi bod Huws yn dweud nad oes unrhyw lawysgrif Gymreig y gellir ei chysylltu ag Ystrad Fflur yn bendant, ond mae tystiolaeth posib ar gyfer rhai llawysgrifau megis Llawysgrif Hendregadredd a Llyfr Gwyn Rhydderch.

43 *Ibid.*, p. 15.

44 Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 344.

45 *Ibid.*, pp. 7–9.

46 *Ibid.*, p. 42.

47 Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, pp. 189–92, sydd yn trafod Dinas Basing, Glyn-y-Groes, neu Ystrad Marchell a oedd yn fynachlog Sistersaidd ger Y Trallwng, fel lleoliad posib ar gyfer llawysgrif gyfraith arall: Llsg. Llundain, British Library, Cotton Caligula, A. iii, sef C, dull lorwerth.

Richard Longford.<sup>48</sup> O gymryd gogledd ddwyrain Cymru yn ei gyfanrwydd, mae'n amlwg bod y llawysgrif yn lleol, neu'n eithaf lleol, i Richard Longford pan aeth ati i wneud ei gopi; os oedd y llawysgrif mewn llyfrgell mynachaid, yna gallai fod wedi mynd i ddwylo unigolyn lleol yn dilyn diddymu'r mynachlogydd, neu fe allai fod mewn dwylo preifat, lleyg, cyn hynny, hyd yn oed o'r cychwyn cyntaf.

O ran y ddwy ganrif wedi creu'r llawysgrif a Richard Longford yn gwneud ei gopi, byddai'n rhwydd disgwyl iddi aros yn lleol. Ond mae yna broblem gyda hynny, ac mae'r broblem yn deillio o nodyn sydd yn ymddangos yn y llawysgrif ei hun. Ar ffolio 72 yn ei gopi, ceir nodyn yn llaw Richard Longford:

Hyn ydoeð wydi i scrivenv yn y llyfr y copied hwn ohono. Y llyfr hwnn a gawas Einiawn ap Adda pan vv yngharchar ymhwmfred gan y cwnstabil, a'r kwnstabil a'i kavas gan brior y vynachloc a hanoeð o Ddehe6barth. Ac ni oes athrondisc ar gyfraith namyn y sydd yn y llyfr hwn kysdal a hwn.<sup>49</sup>

Mae golwg sydyn yn unig ar y nodyn yn codi cwestiynau yn syth, ac mae'r nodyn yn anarferol iawn ac yn ddi-ddorol ynddo'i hun; prin iawn yw nodiadau o'r fath mewn llawysgrifau Cymraeg o'r oesoedd canol. Mae'r nodyn yn dyddio o gyfnod Richard Longford, ond yn cyfeirio yn ôl at gynsail y llawysgrif sydd gennym ni heddiw, sef y llawysgrif wreiddiol a gopiodd Longford a'i amanuensis. Er nad yw'n datgelu llawer ar yr olwg gyntaf, mae'r nodyn hwn yn cyflwyno stori dditectif i ni am hanes y llawysgrif wreiddiol a gopiodd Longford, ac yn rhoi nifer o gymeriadau y dylid eu hystyried yn hanes y llawysgrif. Ceir Einion ab Adda, y carcharor; Prior mynachlog neu briordy ym Mhontefract; a chwnstabil y castell. Dylid hefyd ystyried beth yn union oedd yn newid dwylo yma, gan fwrw golwg ar natur y testun, ac ystyried pam y byddai'r testun yn cael ei drafod neu ei basio ymlaen yn y modd a ddisgrifir yn y nodyn. Fodd bynnag, er bod gennym 'dystiolaeth' yma, mae un elfen bwysig ar goll, sef dyddiad: ni cheir unrhyw gyfnod ar gyfer y carcharor yn y nodyn, ac nid oes awgrym am ddyddiad y cynsail yng nghopi Richard Longford.<sup>50</sup> Ond er nad oes gennym unrhyw ddyddiad pendant, o ystyried cyfnod Richard Longford, a dyddiad posib creu'r llawysgrif wreiddiol, mae modd cyfyngu'r chwilio i'r ddwy ganrif cyn i Richard Longford wneud ei gopi, felly rhwng tua 1350–1550.<sup>51</sup>

Cyn dechrau ystyried y nodyn hwn yn fanwl, mae un ffactor bwysig iawn sydd angen ei drafod. A yw'r nodyn hwn yn nodyn real, yn adrodd hanes a ddigwyddodd mewn gwirionedd, ynteu oes posiblwydd ei fod yn ffugiad? Nid yw'n amhosib

48 Gw. G. J. Williams, 'Traddodiad Llenyddol Dyffryn Clwyd a'r Cyffiniau', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych* 1 (1952), 20–32.

49 Llsg. LIGC, Peniarth 259B, ffols 72r-72v; Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 224.

50 Yn *Ancient Laws*, dywed Aneurin Owen bod y copi gan Longford 'apparently made in the year 1480, from a date occurring incidentally in the matter': Owen, *Ancient Laws*, p. xxxii. Mae'r dyddiad hwn yn ddirgelwch – nid oes unrhyw ddyddiad yn y testun fel ag y mae heddiw, ac mae'r dyddiad yn rhy gynnar ar gyfer amser gwneud copi Longford (tua canrif yn rhy gynnar, o bosib). Heb weld y dyddiad yn y testun, anodd yw dod i unrhyw ganlyniadau am nodyn Aneurin Owen.

51 Am dyddiad posib creu'r cynsail, gw. Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 17.

mai ffugiad sydd yma, neu rhyw fath o chwarae neu dric. Os ydyw'n ffugiad, yna mae'n ffugiad sydd yn dyddio o leiaf o'r unfed ganrif ar bymtheg, gan ei fod yn llaw Longford, neu yn gynharach na hynny os oedd y nodyn yn ei gopi gwreiddiol. Nid yw oedran hynafol ffugiad yn ei wneud yn llai o ffugiad, wrth gwrs. Ond wrth bwysu a mesur y nodyn a'i ystyried fel ffugiad, fe fyddai yn beth rhyfedd i'w wneud; byddai'n jôc gynnar iawn, ond hefyd, petai rhywun yn ceisio creu stori am y llawysgrif, mae Pontefract yn lle annisgwyl iawn i'w ddewis fel lleoliad ar gyfer stori o'r fath. Yn rhy annisgwyl, efallai, i beidio â thynnu sylw. Felly mae'n debyg bod rhaid cymryd bod rhywfaint o wirionedd yn y stori, a chymryd bod y nodyn yn trafod rhywbeth a ddigwyddodd mewn gwirionedd.

Posibilrwydd arall sydd angen ei ystyried yw nad Pontefract sydd yma o gwbl. Mae'r nodyn, yn llaw Richard Longford, yn ddigon clir – mae'n anodd gweld unrhyw enw heblaw Pomffred yn y nodyn hwn, ac roedd Richard Longford yn gopi'yd gofalus a da.<sup>52</sup> Ond tybed oedd y nodyn yn gopi o rhywbeth a oedd wedi ei wyro neu ei gamysgrifennu? Mae rhai ffactorau yn cefnogi hyn: byddai Cymro yn llawer fwy tebygol o fod yn y carchar yng Nghymru nag ym Mhontefract, a byddai'n fwy amlwg i gael Prior o dde Cymru mewn priordy yng Nghymru. Hefyd, byddai'n haws credu efallai i'r llawysgrif aros yng ngogledd ddwyrain Cymru wedi iddi gael ei hysgrifennu – gan fod y llawysgrif yn yr ardal honno pan oedd Longford yn ei chopio – nag iddi deithio ymhell i Bontefract, ac yna dod yn ôl yn fras i'r ardal lle y cafodd ei chreu yn wreiddiol. Yn ddi-ddorol, roedd nifer o aelodau o deulu Longford yn gwnstabiliaid castell Rhuthun, ac roedd priordy yn Rhuthun hefyd.<sup>53</sup> Ar y llaw arall, ni fyddai cael prior o dde Cymru yn Rhuthun yn arwyddocaol, ac felly annhebyg y byddai neb yn ei weld yn beth angenrheidiol i'w roi mewn nodyn arwyddocaol. Yn yr un modd, byddai Einion ab Adda yn un o nifer o Gymry yng ngharchar Rhuthun; ym Mhontefract, fodd bynnag, efallai y byddai cael Cymro yn y carchar yn beth mwy anarferol, ac o ganlyniad byddai'r Cymro hwnnw yn fwy amlwg, a byddai'n rhywbeth werth ei nodi. Yn olaf, ac efallai'n bwysicaf, mae'n anodd gweld unrhyw ffurf ar enw lle Cymreig a allai arwain at gael ei gamgymryd am Bomffred.<sup>54</sup>

Felly, dyma droi at edrych ar y dystiolaeth a gweld beth ellir ei wneud â'r nodyn. Mae gennym enw un dyn, sef Einion ab Adda, felly mae'n lle da i gychwyn holi. Pwy oedd Einion ab Adda, pryd oedd o yn y carchar a pham, ac hefyd pam rhoi'r llawysgrif iddo? Yn anffodus, nid oes atebion rhwydd. Hyd yn hyn, nid yw enw Einion ab Adda wedi ymddangos yn unrhyw un o'r ffynonellau o Gymru nac o Bontefract.<sup>55</sup> Mae hyn yn golygu bod penderfynu pryd yr oedd yn y carchar yn

52 Ceir delwedd o'r nodyn yn Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 16.

53 Jones, 'Langford (Teulu)'; 'Ruthin Priory', in *Monastic Wales* <<http://www.monasticwales.org/browse.php?func=showsites&siteID=48>> [accessed 5 December 2012]

54 Treuliwyd llawer i awr ddifyr yn ceisio ailysgrifennu y gair o'r nodyn mewn gwahanol ffurfiau, gan ddefnyddio gwahanol lythrennau, i weld a oes modd cael unrhyw enw lle gwahanol! Anodd yw gweld sut y gallai unrhyw enw lle yng Nghymru gael ei wyrdroi i 'ymhwmfred' mewn un cam yn unig.

55 Mae'n ddigon posib bod cofnod am ei garcharu yn rhywle; ond gan i gastell Pontefract newid dwylo sawl gwaith yn y cyfnod, a chan fod llu o gofnodion Saesneg yn ymwneud â'r castell, hyd yn hyn ni ddaethpwyd o hyd i Einion ab Adda. Mae'n bosib hefyd, wrth gwrs, nad oedd yn ddigon pwysig i gael ei enwi mewn cofnod Saesneg.

anodd – ond mae angen edrych efallai ar hanes yn fwy cyffredinol i ystyried beth oedd yn mynd ymlaen yma, ac mae modd gwneud hyn trwy edrych ar hanes Lloegr a Chymru o'r tu fewn i furiau castell Pontefract.

Mae castell Pontefract yn swydd Efrog, ger Wakefield. Roedd hwn yn gastell Normanaidd mawr a phwysig, a dyma'r castell brenhinol pwysicaf yng ngogledd Lloegr. Roedd yn cael ei ddefnyddio fel caer, fel cartref ac fel carchar trwy gydol yr oesoedd canol hyd nes iddo gael ei ddinistrio yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr, ac mae digon o gyfeiriadau ato yn cael ei ddefnyddio fel carchar. Nid yw hyn yn annisgwyl – roedd cestyll yn lefydd oedd yn eu benthyg eu hunain yn rhwydd i fod yn garchardai mewn cyfnod pan nad oedd yna garchardai pwrpasol. Cafodd castell Pontefract ei adeiladu tua 1070 gan Ilbert de Lacy, cyfaill i Wiliam Goncwerwr, a dyn a ymladdodd ym mrwydr Hastings gyda'i frawd, Walter.<sup>56</sup> Roedd y ddau yn dod yn wreiddiol o Lassy, yn ardal Calvados yn Normandi. Er i Pontefract fod yn bell iawn o ogledd ddwyrain Cymru, mae'n syndod pa mor aml y mae'r llwybrau yn croesi. Roedd teulu de Lacy yn byw ym Mhontefract tan y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac mae tystiolaeth iddynt ei ddefnyddio fel carchar hefyd – mae cyfeiriadau at gadw gwystlon o Gymru yn y castell ym 1295 ac ym 1304, yn dilyn concwest Cymru ym 1282.<sup>57</sup> Mae'r dyddiadau hyn braidd yn gynnar ar gyfer y llawysgrif, fwyaf tebyg, ond nid ydynt yn amhosib wrth gwrs, gan nad oes gennym y cynsail i'w ddyddio. Roedd gan deulu de Lacy diroedd yng Nghymru hefyd, sef Arglwyddiaeth Dinbych yng ngogledd ddwyrain Cymru, ac roedd teulu brawd Ilbert de Lacy yn dal tiroedd yn nes at dde Cymru, yn y Mers: Ewys Lacy, ger Llwydlo.

Ym 1311, pasiodd Pontefract gyda thiroedd eraill teulu de Lacy i feddiant Thomas Iarll Lancaster. Fe gododd ef mewn gwrthryfel yn erbyn Edward II a chafodd ei ddiennyddio yng nghastell Pontefract ym 1322; roedd ganddo Gymry yn ei fyddin o'i diroedd Cymreig. Wedi hynny, aeth y castell i ddwylo brenhinol, ac roedd John o Gaunt yn byw yno. Yn y cyfnod hwn, yn enwog iawn, bu farw Richard II ym Mhontefract (roedd wedi ei gipio yn Fflint) tua 1400; ond mae cryn ddirgelwch am ei farwolaeth felly mae'n anodd dweud a oedd ganddo Gymry gydag ef – mae'n ymddangos iddo farw yn unig. Wedi hyn, daeth Pontefract yn fath o garchar diogelwch uchel – roedd yn gastell mawr a chadarn beth bynnag – ac fe gadwyd nifer o garcharorion pwysig yno.<sup>58</sup> Yn eu mysg, nifer o garcharorion o Ffrainc o ganlyniad i frwydrau'r Rhyfel Canmlynedd, a thyrfafawr o garcharorion yn dilyn brwydr Agincourt, 1415; yn ddiweddarach, ym 1483, cafodd Anthony Woodville, Iarll Rivers, ei lofruddio yno ynghyd â nifer o ddynion eraill gan gynnwys un o Gymru, gan Risiart Dug Caerloyw (neu Risiart y trydydd yn fuan wedyn).

Felly, i droi yn ôl at Einion ab Adda, mae digon o gysylltiadau rhwng Pontefract a gogledd ddwyrain Cymru, a rhyfeloedd rheolaidd yng Nghymru a defnydd o'r Cymry fel milwyr yn y fyddin Saesneg ac yn y blaen. Ar yr olwg gyntaf, mae

56 Ian Roberts, *Pontefract Castle* (Wakefield: West Yorkshire Archaeology Service, 1990); Ian Roberts, *Pontefract Castle: Archaeological Excavations 1982–86* (Wakefield: West Yorkshire Archaeology Service, 2002).

57 Roberts, *Pontefract Castle: Archaeological Excavations*, p. 15.

58 Ibid.

Pontefract yn ymddangos yn lle rhyfedd iawn i gael carcharor o Gymru; ond mewn gwirionedd roedd cyswllt gyson trwy deulu de Lacy ac wedyn.

Pam y byddai Einion ab Adda yn y carchar?<sup>59</sup> Mae llw o resymau posib – roedd pobl yn cael eu carcharu yn yr oesoedd canol am bob mathau o achosion. Ond, mae angen ystyried castell Pontefract yma, a'i bwysigrwydd; mae tystiolaeth gyson iddo ddal gwystlon a charcharorion o bwys. Roedd hefyd yn gastell brenhinol ar ôl cyfnod Thomas dug Lancaster – felly er efallai i'r castell ddal lladron a dihirod cyn eu hachosion llys, mae'n llawer mwy enwog fel carchar ar gyfer pobl o bwys. Mae'n ymddangos nad oedd Einion ab Adda yn ddigon pwysig i gael ei enwi mewn cofnod, ond efallai iddo fod yno gyda rhywun o bwys, fel gosgordd neu yn gweithio i rhywun. Hefyd, yn ôl y stori, derbyniodd y llawysgrif tra'r oedd yn y carchar. Pam y byddai rhywun yn rhoi llawysgrif i garcharor? Efallai ei fod yn ddyn oedd yn ymddiddori mewn llawysgrifau, neu yn gopiyydd. Ond tybed a gafodd y llawysgrif am ei fod yn adnabyddus – yn Gymro ym Mhontefract? Peth annoeth iawn fyddai rhoi llawysgrif werthfawr i garcharor oedd ar fin cael ei ddiennyddio, fel y byddai'n debygol o ddigwydd i leidr, felly tybed a oedd pobl yn gwybod am fodolaeth Einion am ei fod yn garcharor a oedd yno am gyfnod hir, neu yn wystl ac yn berson o bwys?

Mae penderfynu pryd oedd Einion ab Adda yn y carchar yn waith llawer mwy anodd gan bod nifer o bosibiliadau. Ond o gymryd oedran posib y llawysgrif, mae'n fwy tebygol y byddai yno yn y bymthegfed ganrif, gan ei bod yn annhebygol y byddai'r llawysgrif wedi ei llunio cyn 1350.<sup>60</sup> Ym 1400, roedd y Cymry yn amhoblogaidd iawn yn sgil gwrthryfel Owain Glyn Dŵr – ac roedd Owain Glyn Dŵr yn dod o ogledd ddwyrain Cymru. Yna, wedi brwydr Agincourt ym 1415, roedd ymairnt o garcharorion a gwystlon ym Mhontefract nes bod angen ehangu'r ceginau a sicrhau lle i'w cadw – tybed oedd Einion ab Adda yno bryd hynny?<sup>61</sup>

I droi yn awr at y person arall yn y stori yn y nodyn, prior y fynachlog – cafodd Einion y llawysgrif yn anuniongyrchol gan y prior: rhoddodd y prior y llawysgrif i'r cwnstabl, a'i rhoddodd i Einion. Roedd nifer o fynachlogydd ym Mhontefract ond y prif un oedd Sant Ioan Efengylwr. Mae rhestr yn enwi bob prior, ond nid oes unrhyw un sydd yn amlwg gydag enw Cymraeg. Fod bynnag, rhwng 1413-1437, Richard Haigh oedd y prior, ac mae'n ymddangos ei fod hefyd yn dal yr enw

59 Un posibilrwydd yw nad oedd Einion ab Adda yn garcharor o gwbl; mae'n bosib hefyd ei fod yn gweithio yn y castell, efallai yn filwr neu'n cynorthwyo gyda charcharorion; mae modd darllen 'pan fu yng ngharchar ym Mhwmffred' mewn gwahanol ffyrdd. Ar y trywydd hwn roeddwn yn ffodus i elwa'n fawr o bapur a draddodwyd gan Rhidian Griffiths yng Nghynhadledd Guto'r Glyn, Aberystwyth, Medi 2012, yn trafod y Tywysog Harri a'i ddilynwyr yn y Mers, ac o sgrws fuddiol gyda Dr Griffiths wedi'r papur. Mae'r posibilrwydd nad carcharor oedd Einion ab Adda yn un sydd angen ei ystyried yn fwy manwl.

60 Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, p. 17.

61 Er nad oes cyfeiriad pendant at unrhyw wystl o'r enw Einion ab Adda yn y cofnodion yn ymwneud â charcharorion yn dilyn brwydr Agincourt, mae un cyfeiriad at ŵr gydag enw rhyfedd iawn, a gafodd ei ddal yn dilyn y frwydr – enw'r dyn oedd Emyneon Benefyk, a cafodd ei ryddhau i geisio sicrhau ei bridwerth: TNA, C 76/98, m.4. Mae'n ddigon posib bod y ffurf Emyneon yn ymgais i sillafu Einion, ond mae'r cyfenw yn anos.

Richard Denyas neu Devyas.<sup>62</sup> Os Devyas oedd ffurf ei enw – ac mae'n debyg mai dyna ydoedd, gan fod cofnod o fynach o Bontefract o'r enw Richard Devyas a gafodd ei urddo yn fynach yn Efrog ym 1397 – yna efallai ei fod yn hanu o Ewyas Lacy yn ne Cymru<sup>63</sup> Mae amser ei Brioriaeth yn cyd-fynd yn dda gydag amser ehangu castell Pontefract i ddal carcharorion.

Yn yr un cyfnod, mae gennym wybodaeth am gwnstabl y castell – Syr Robert Waterton. Ym 1399 cafodd ei wneud yn 'Master of the Kings Horses and Armour', ac ym 1404, 'Master of the Kings Hounds'. Roedd yn gyfaill agos i Harri IV, ac ef oedd yn gyfrifol am y carcharorion o'r Rhyfel Canmlynedd. Nid oedd gan y gŵr hwn unrhyw gysylltiadau â Chymru, ond, roedd yn gwnstabl, yn geidwad carchar, ac hefyd yn Feistr Ysbyty Sant Nicholas ym Mhontefract, a oedd yn gysylltiedig â Phriordy Sant Ioan.

Er nad oes atebion pendant i'r cwestiynau – ac heb weld cofnod sydd yn enwi Einion ab Adda ni fydd modd cael yr atebion pendant hynny – mae nifer o awgrymiadau cryfion am y bobl a restrir yn y nodyn yn y llawysgrif. Ond yn sicrgellir dweud bod mwy o gwestiynau nag atebion. Mae'r hyn a wyddom o bosib yn llai na'r hyn sydd heb ei ddatgelu i ni. Fodd bynnag, mae modd llunio darlun bras iawn o'r hyn oedd yn digwydd ym Mhontefract yn ôl y nodyn, er nad oes modd bod yn bendant.

I droi yn ôl at y llawysgrif ei hun, o ble y cafodd y Prior y llawysgrif? Mae'n amhosibl dweud i sicrwydd, ond er bod y Prior yn hanu o dde Cymru, nid yw hyn yn golygu bod y llawysgrif yn dod o'r un lle. Mae'n fwy tebygol iddo ei chael o'r gogledd ddwyrain, lle y cafodd ei chynhyrchu – efallai mewn mynachlog. Mae'n ddigon posib i'r Prior – cyn iddo ddod yn Brior ond fel mynach cyffredin – fenthyca'r llawysgrif o lyfrgell mynachlog; wedi'r cyfan, roedd mynaich yn medru darllen, ac roeddent yn cael mwy o fynediad at lawysgrifau nag y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn y cyfnod. Tybed ai'r Prior a aeth â'r llawysgrif o Gymru i Bontefract? Ef yw'r person cyntaf ym Mhontefract y gwyddom iddo gael y llawysgrif yn ei feddiant, yn ôl y nodyn.

Cyn cloi, beth yn union oedd y llawysgrif a aeth i Bontefract, ac a ddaeth yn ôl wedyn? Dylid nodi bod y copi o Z sydd gennym yn llawysgrif mewn dwy ran, yn brif destun Cyfnerth, ac yn gynffon o ddeunydd ychwanegol; mae yna hefyd nifer o gynseiliau gwahanol ar gyfer y deunydd yn y gynffon.<sup>64</sup> Nid oes rhaid cymryd bod y llawysgrif helaeth sydd gennym heddiw yn gopi o'r hyn aeth i Bontefract – fe all mai dim ond rhan o'r hyn a gopiodd Longford a aeth yno. Efallai mai dim ond y prif destun Cyfnerth a aeth; byddai llawysgrif o'r fath yn rhwyddach i'w symud, ac mae'r llawysgrifau Cyfnerth oll yn fach o ran maint. Ceir y nodyn ar dudalen wag yng nghopi Longford, ac yn llaw Longford ei hun, ond mae'r testun y ddwy ochr i'r nodyn yn llaw ei amanuensis. Efallai i Longford gopïo'r nodyn am ei fod yn teimlo

62 David M. Smith, *The Heads of Religious Houses in England and Wales Vol. III, 1377–1540* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008), p. 252. Mae David Smith yn ansicr ynghylch ffurf yr enw yn y llawysgrif.

63 David M. Smith, *A Calendar of the Register of Robert Waldby, Archbishop of York, 1397* (York: University of York, Borthwick Institute of Historical Research, 1974), p. 41: cafodd Richard Devyas, 'Monk of Pontefract', ei urddo yn Ddiacon yn Efrog ym mis Ebrill 1397.

64 Roberts, *Llawysgrif Pomffred*, pp. 21–43.

ei fod yn bwysig, ond na roddodd y nodyn yn ei safle gwreiddiol yn y llawysgrif.<sup>65</sup> Wrth gwrs, gall hyn arwain at drybini mawr – efallai nad oedd y nodyn yn perthyn yn llawysgrif *Z* o gwbl, ond mewn llawysgrif arall. Unwaith eto, mae'r dystiolaeth yn cynnig llawer o bosibiliadau i ni ond yn dawel ar yr atebion.

I gloi, mae modd crynhoi'r posibiliadau ac fe hoffwn gynnig diwedd posib i'r stori. Cafodd y llawysgrif wreiddiol ei llunio yng ngogledd ddwyrain Cymru, yn gyfuniad o wahanol gynseiliau. Roedd llawysgrifau a chynseiliau yn teithio o gwmpas gryn dipyn yn y cyfnod – roedd gan y person a luniodd cynsail llawysgrif Longford nifer o destunau wrth law, hyd at naw, ac efallai eu bod yn destunau a oedd yn adnabyddus yn lleol. Beth bynnag, mae'n debyg i gynsail *Z* gael ei llunio tua 1350 neu ychydig yn ddiweddarach. Mae'n bosib ei bod wedi ei chreu mewn mynachlog, a'i bod wedi aros yno. Yna, rhywsut, fe aeth i ddwylo mynach, a aeth i Bontefract – roedd mynachod yn symud o gwmpas gryn dipyn yn y cyfnod – ac mae'n bosib mai'r mynach a aeth â'r llawysgrif i Bontefract. Daeth y mynach o dde Cymru yn Brior y fynachlog ym Mhontefract.

Rhywbryd yn ystod y bymthegfed ganrif, efallai wedi brwydr Agincourt neu yn dilyn un o'r brwydrau eraill yn y Rhyfel Canmlynedd, fe aeth lluo o garcharorion, yn wystlon, i gastell Pontefract. Efallai i Gymro o'r enw Einion ab Adda fod yn eu mysg; yn sicr, mae'n ymddangos bod Einion ab Adda yn adnabyddus fel carcharor ym Mhontefract. Efallai mai ef oedd yr unig Gymro yno, neu efallai ei fod yn ddyddyn pwysig. Am ba bynnag reswm, penderfynodd y Prior roi ei llawysgrif i'r Cymro hwn – ond am resymau aneglur, roedd yn rhaid iddo fynd trwy'r cwnstabl.

Wedi hyn, aeth y llawysgrif yn ôl i Gymru, a thrwy gyd-ddigwyddiad, aeth yn ôl yn fras i'r un ardal lle y cafodd ei chynhyrchu yn wreiddiol. Mae'n debyg ei bod yn llawysgrif adnabyddus yn lleol yn y cyfnod Tuduraidd – defnyddiodd William Salesbury hi, ac yna cafodd ei chopio gan Richard Longford a'i gynorthwyydd. Ond wedi iddynt wneud eu copi, diflannodd y llawysgrif wreiddiol. Aeth copi Longford i Hengwrt at gasgliad Robert Vaughan, ond nid oes unrhyw awgrym i'r cynsail fynd hefyd.

Sut y daeth y llawysgrif yn ôl i Gymru? A ddychwelodd Einion ab Adda y llawysgrif i'r Prior? Hoffwn awgrymu ddiwedd hapus i stori Einion ab Adda. Mae'n debyg ei fod yn garcharor o bwys, efallai yn wystlon, neu yn garcharor tymor hir. Efallai iddo gael y llawysgrif am ei fod yn adnabyddus, neu am ei fod yn ddyddyn o bwys; ond tybed a benderfynodd y Prior roi'r llawysgrif i Einion ab Adda am ei fod yn gwybod ei fod yn Gymro, ac am ei fod yn gwybod beth oedd ar fin digwydd i Einion? Tybed oedd Einion ab Adda ar fin cael ei ryddhau, ac felly fe gafodd y llawysgrif a dychwelyd i Gymru gyda hi. Amhosib yw dweud gyda sicrwydd, ond braf fyddai meddwl i Einion ab Adda gael dychwelyd adref yn dilyn ei gyfnod yn y carchar ym Mhomffred.

\*\*\*\*\*

## [SUMMARY]

## Law, Prison and Castle: The Travels of a Legal Manuscript

The article tells the story of one particular manuscript of the ‘Law of Hywel Dda’, National Library of Wales, MS Peniarth 259B. Dating from the sixteenth century, this is the most recent of all the manuscript copies of this important medieval legal tract, with the earliest manuscripts dating from the mid-thirteenth century.

Beginning with a discussion of ‘Cyfraith Hywel’ (The Law of Hywel) as a medieval text of great historical significance, the article summarizes what we know of the twenty-odd manuscripts of the laws and their description by early editors of the seventeenth and eighteenth centuries. Aneurin Owen’s *Ancient Laws and Institutes of Wales*, published in 1841, was the first to classify the manuscripts into one group of Latin texts and three groups of Welsh texts which Owen called ‘Cyfnerth’ (after Cyfnerth ap Morgeneu from south Wales), ‘Iorwerth’ (after Iorwerth ap Madog from Gwynedd), and ‘Blegywryd’, the largest group, also from south Wales. He also gave each manuscript an identifying sigla. These names are still used to classify the Welsh manuscripts of the Laws.

Peniarth 259B (referred to in Owen’s classification system as ‘Z’) belongs to the Cyfnerth group and was written in two hands, that of Richard Longford and that of his amanuensis, sometime in the 1540s, though the text they were copying was older. Longford, who died in 1586, lived in Trefalun in north-east Wales and was Lieutenant of Bromfield and Yale under William Herbert, Earl of Pembroke. From a family English in origin, Longford was greatly interested in Welsh literature and copied a number of manuscripts in Welsh. His 1573 copy of the ‘White Book of Rhydderch’, a fourteenth-century anthology of Welsh literary texts, is now the only surviving version of that manuscript.

Longford’s contemporary, William Salesbury, drew on the contents of manuscript Z for some of his own writing, working from the same original text from which Longford made his copy. It is not certain which of them used the manuscript first, nor where it came from, whether from a monastic library or from a private collection. We cannot say much about the original manuscript which Longford copied as it does not appear to have had any datable or identifying notes which were copied; we cannot know whether Longford and his amanuensis modernized the orthography as they were copying it, so we cannot even be sure of its date. However, on the basis of its similarity to other manuscripts of the ‘Cyfnerth’ group, together with its later colophon, it seems likely that the original Z dates from the fourteenth century, and it contains some references which suggest a provenance in Powys, or certainly north east Wales, close to where Richard Longford himself lived.

From a note in the manuscript made by Richard Longford, it seems that the original manuscript was owned by someone called Einion ab Adda who was in prison in ‘Pomffred’ (Pontefract in Yorkshire). Einion got the manuscript from the constable, who got it from a prior of a monastery, says Longford’s note, but we have no idea of the date of these transactions which could have been at any time between the fourteenth and sixteenth centuries.



The article attempts to solve this 'detective story'. Pontefract castle was originally owned by the Norman family of de Lacy who also owned estates in Wales, including the lordship of Denbigh and the lands of Ewyas Lacy near Llwydlo on the southern March. Thomas, Earl of Lancaster, was executed at Pontefract in 1322 and Richard II died there in around 1400, after being captured at Flint. In the fifteenth century, French prisoners from the Hundred Years War were held at the castle and in 1483 a number of men, including at least one from Wales, were murdered there by Richard, Duke of Gloucester (later Richard III).

There are, therefore, various links between Pontefract castle and north-east Wales, strengthened by the participation of Welshmen in English armies during the fourteenth and fifteenth centuries. The article suggests that, since Pontefract was a royal castle after 1322 and was known to hold prisoners of rank, it is possible that Einion ab Adda (whose name does not appear in any of the castle records) was there as part of the retinue of an imprisoned nobleman. This would explain how he came to be given the manuscript while in prison. The article speculates that one possibility is that Einion may have been held there as a hostage after the battle of Agincourt in 1415.

Einion was given the manuscript by the constable of the castle, who got it from a prior. The main monastery in Pontefract was that of St John the Evangelist. One of its priors, Richard Haigh, who held office between 1413 and 1437, was also known as Richard Denyas or Devyas which might signify that he came from Ewyas Lacy. The prior probably got the manuscript from north-east Wales where it was produced in a monastery, and it then travelled back to Wales – or at least part of it did – to be copied by Richard Longford in the sixteenth century.

Though the article admits that the note in Longford's manuscript provides more questions than answers, it offers the following reconstruction of events: the original manuscript was compiled in about 1350 in north-east Wales, probably in a monastery, based on a variety of sources. It then fell into the hands of a monk from south Wales who took it to Pontefract and who became the prior of a monastery there. Sometime in the fifteenth century, perhaps after the battle of Agincourt or another of the battles of the Hundred Years War, a group of hostages were held prisoner in Pontefract castle. A Welshman, Einion ab Adda, was among them, and he was given the manuscript by the prior, via the constable of the castle. The manuscript then travelled back to Wales to the same area where it had been compiled. It seems to have been well-known locally in the Tudor period: William Salesbury used it and then Richard Longford copied it. Some time after that, the original manuscript disappeared and Longford's copy went to Hengwrt, into the collection of Robert Vaughan. As for Einion ab Adda, the article suggests a happy ending: perhaps the prior gave him the manuscript because he knew that Einion's sentence was soon coming to an end and Einion would be able to take the manuscript back to Wales.